

Paragraffau Enghreifftiol

Sylwer os gwelwch yn dda:


Mae'r gwaith hyn eisoes wedi ei gyflwyno i Turnitin.

Cyflwyniad

Amlinelliad o'r
cynnwys a chyd-
destun yr
ymchwil.



Crynodeb byr o
gyd-destun yr ysgol



Honna Coe et al. (2020) bod angen i athrawon gael dealltwriaeth gadarn, dwfn a hyblyg o'r cynnwys y maent yn addysgu, a sut mae'n cael ei addysgu. Mae hyn yn digwydd trwy gynnig adborth llafar i ddisgyblion o fewn amgylchedd dysgu fel bod dysgwyr yn gallu ymateb iddo a gweithredu ar yr adborth yn unionsyth (Goddard, 2022). O ganlyniad, penderfynwyd cynnal ymchwil ar raddfa fach i archwilio beth yw barn staff a dysgwyr Blwyddyn 5 o ddefnyddio adborth llafar fel strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn yr ystafell ddosbarth. Nod yr ymchwil oedd ceisio darganfod beth a deall effeithiolrwydd dulliau AagD gwahanol er mwyn gallu eu rhoi ar waith yn yr ystafell ddosbarth ar ol dadansoddi'r data a gasglwyd drwy ddefnyddio holiaduron a chyfweliadau er mwyn gwella fy arfer proffesiynol. Mae AagD yn un o'r deuddeg egwyddor addysgeg a awgrymodd Donaldson (2015) yn ei adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yn ei adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Llywodraeth Cymru, 2015). Noda Cwricwlwm i Gymru pwysigrwydd AagD ble mae asesu'n chwarae rhan sylfaenol wrth sicrhau bod pob dysgwr unigol yn gael ei gefnogi a'i herio (Llywodraeth Cymru, 2022). Ystyriwyd pwysigrwydd AagD fel proses o ddarganfod 'cyrhaeddiad disgyblion o fewn continwwm dysgu' er mwyn darganfod ble mae'r dysgwr ac adnabod y camau nesaf o fewn addysg plentyn (Llywodraeth Cymru, 2022, t.26). Cytuna Black a Wiliam (1998) bod AagD yn elfen hanfodol i addysgu er mwyn gallu cynnig adborth am gynnydd a datblygiad. Cafodd yr ymchwil ei gynnal mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ne orllewin Cymru gyda staff a dysgwyr Blwyddyn 5 (9-10 oed).

Adolygiad Llenyddiaeth

Cyflwyriad a
chyflwyno'r
agwedd
ddewisol o
AagD



Bwriedir diffinio beth yw AagD ac edrych yn benodol ar cwestiynu. Awgryma Lynch (2016) bod asesu'n broses o gasglu a defnyddio gwybodaeth am gyflawniad plentyn. Dywedir yn aml fod dau wahanol fath o asesu; crynodol sef gwirio'r hyn a ddysgwyd ac asesu ffurfiannol sef defnyddio asesiad i wella'r dysgu (Zook, 2016). Dadl debyg sydd gan Dauncey (2017), defnyddir asesu parhaus

Adolygiad Llenyddiaeth

‘Yr angen i wella’r asesu yw’r argymhelliad mwyaf cyffredin mewn adroddiadau arolygu ac mae hwn yn faes pwysig i’w wella mewn tua 40% o ysgolion a arolygwyd’ (Estyn, 2014, t.26). Mae asesu bellach yn rhan sylfaenol o’r cwricwlwm a’i ddiben cyffredinol o fewn Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae’r canllawiau yn nodi bod asesu yn chwarae tair prif ran yn y broses o alluogi cynnydd dysgwyr; cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd, nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser a deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion (Llywodraeth Cymru, 2022). Canfu Black a Wiliam (1998) bod defnydd effeithiol o asesu yn y dosbarth yn cynhyrchu cynnydd rhwng 0.4 a 0.7 gwyriad safonol yng nghyflawniad dysgwyr. Yn yr un modd, mae adroddiad gan Coe et al. (2014) yn nodi bod cwestiynu effeithiol a’r defnydd o asesu gan athrawon yn un o’r chwe elfen sydd yn gwneud dysgu gwych. Felly o ystyried rôl asesu yng Nghwricwlwm i Gymru a’r astudiaethau gan Black a Wiliam (1998); Wiliam (2011), a Coe et al. (2014), does dim dwywaith bod y defnydd o strategaethau AaGD yn bwysig er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd.

Cyfeirio at
llenyddiaeth
allweddol yn y
maes, e.e.
Polisi
llywodraeth;
Adroddiadau
Estyn,
awduron
allweddol, e.e.
Black a
Wiliam; Coe et
al.; Hattie...

Enghraifft o
ddadansoddi a
syntheseiddio
ffynhonnell, e.e.
Lemov

Mae yna bedair elfen i AagD, rhannu'r meini prawf llwyddiant, hunan asesu ac asesu cyfoed, adborth, a chwestiynu (Llywodraeth Cymru, 2010). Ar gyfer yr ymchwil hwn, roeddwn i wedi penderfynu edrych yn benodol ar yr agwedd o gwestiynu, a'r defnydd o fyrddau gwyn bach fel offeryn i asesu dealltwriaeth. Un ffordd gyffredin i asesu dealltwriaeth dysgwyr trwy gwestiynu ydy defnyddio'r strategaeth sydd yn galw ar ddysgwyr i ddangos eu bodiau. Mae arwyddion â dwylo yn gallu caniatáu i'r athro wirio dealltwriaeth dysgwyr yn gyflym ac ar draws y dosbarth . Ond dadleua Lemov (2021) nad yw'n strategaeth effeithiol i wirio dealltwriaeth y dosbarth. Trwy ofyn i ddysgwyr ddangos bodiau yn hytrach na gofyn 'ydych chi'n deall?', mewn gwirionedd, yr un cwestiwn sydd yn cael ei ofyn ond y tro yma, mae mwy yn cymryd rhan (Lemov, 2021, t.79). Nid yw'n adlewyrchiad clir o ddealltwriaeth y dosbarth oherwydd dydy'r dysgwyr ddim o reidrwydd yn gwybod beth maent i fod wedi deall. Techneg mae Lemov (2021) yn cynnig sydd yn effeithiol i arsylwi gwaith a dealltwriaeth dysgwyr ydy i ddefnyddio offer megis byrddau gwyn bach i gyflwyno atebion. Mae'n caniatáu i'r athro gael syniad gwell o ddealltwriaeth y dysgwyr. Noda Lemov (2021) mai un o'r tair maen prawf sydd angen i wneud y dull hwn yn effeithiol

Trafodaeth
feirniadol –
ystyried
safbwyntiau
gwahanol

Honna Black a Wiliam (1998) bod angen i asesu fod yn rhyngweithiol. Gall hyn ddigwydd trwy roi adborth ar lafar gan yr athro neu wrth asesu cyfoedion. Gwelir hefyd bod Wiliam (2011) yn atgyfnerthu ei farn am bwysigrwydd adborth llafar wedi selio ar ymchwil ar ymarferwyr dosbarth. Noda Brassington (2020) y gall gweithredu adborth llafar yn yr ystafell ddosbarth trwy gynnig cyfleoedd i gynnig adborth personol i ddisgyblion. Cynniga hyn gyfle i ddisgyblion gyrraedd nodau dysgu penodol er mwyn datblygu tuag at gwricwlwm continwwm Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Er hyn, noda ymchwil gan Wallace a Kirkham (2017) bod gostyngiad o adborth yn ddiweddar i farcio gyda peniau amryliw a stampiau adborth llafar wedi bod yn ddargyfeiriad ofnadwy oddi wrth wir ddiben adborth sef gwella dysgu a chynnydd dysgwyr. Tra bod Moor (2017) yn pwysleisio bod cynnig adborth llafar yn cefnogi addysgu effeithiol, mae Elliot et al (2016) yn cwestiynu eu gwerth. Ymhelaethodd gan nodi bod rhai disgyblion yn methu deall yr adborth a bod dulliau adborth gwell nag adborth llafar megis adborth ysgrifenedig yn cynnig mwy o ddyfnder o ran adborth i ddisgyblion (Elliot et al (2016). Fodd bynnag, noda Estyn (2024) bod rhai staff mewn ysgolion yn datblygu dull adborth llafar sy'n gadarnhaol, yn benodol, ac yn dangos y camau nesaf yn glir i ddisgyblion. Yn debyg, noda Bitchener (2017) ganfyddiadau tebyg yn ei ymchwil lle noda bod rhai dysgwyr yn methu elwa o adborth ysgrifenedig gan fod angen esboniad mewn ffyrdd mwy syml fel trafodaeth ar lafar.

Trafodaeth fanylach ar
yr elfen ddewisol o
AagD (e.e. cwestiynu)

Cyfeiriadau at waith ymchwil
pwysig yn y maes; awduron
allweddol, safbwyntiau
gwahanol

Nodir y gwahanol safbwyntiau am gwestiynu fel modd o AagD yn yr adran yma. Allan o'r 4 elfen o AagD sonia Llywodraeth Cymru (2010) bod cwestiynu yn y grym tu ôl i ddatblygu meddwl ac asesu yn yr ystafell ddosbarth. Cwestiynu yw un o'r strategaethau allweddol a ddefnyddir gan athrawon i ddarganfod yr hyn mae disgyblion eisoes gwybod, yn sylweddoli'r bylchau mewn gwybodaeth ac yn sgaffaldio datblygiad eu dealltwriaeth i gau'r bwlch rhwng yr hyn y maent yn ei wybod a'u targedau (Hall, 2016). Nid yw cwestiynu'n ymwneud â gwirio'r atebion yn unig, ond yn fwy pwysig ei bwrpas yw gwrando ar atebion a gynigwyd gan y disgyblion ac mae'n gyfle iddyn nhw fynegi ei meddyliau (Llywodraeth Cymru, 2010). Pwysleisa Llywodraeth Cymru (2010) a Hall (2016) bod nifer o fanteision i gwestiynu yn y dosbarth, megis gofyn cwestiynau o lefel uchel yn ysgogi disgyblion i archwilio syniadau, creu cysylltiadau a'i helpu i weld 'darlun mawr' y dysgu. Mantaïs arall yw bod modd rhoi adborth ar unwaith i ddisgyblion ac asesu'n syth (Hall, 2016). Ymhellach, yn ôl Clarke (2001) gofynnir cwestiynau syml i helpu disgyblion hunanasesu a dangosir welliant mawr mewn gwaith. Gall yr athro defnyddio'r atebion i siapio gwersi'r dyfodol, trwy gynnwys plant yn y proses cynllunio mae'n cynyddu eu diddordeb a chymhelliant. (Clarke, 2020). Ymhellach, maent yn helpu disgyblion i ddatblygu eu ffordd o feddwl o'r math concrit a ffeithiol i ffordd ddadansoddol a gwerthusol, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach a meddwl mwy soffistigedig (Clarke, 2020).

Ar y llaw arall, mae heriau i gwestiynu fel strategaeth AagD. Y ffordd fwyaf cyffredin o ryngweithio rhwng disgyblion ac athrawon yw gofyn cwestiynau, er hyn awgrymir ymchwil bod y cwestiynau

Methodoleg

Cyfiawnhau a gwerthuso'n feirniadol eich offer ymchwil, e.e. holiadur

Defnyddio llenyddiaeth allweddol i gefnogi sylwadau, e.e. Cohen & Manion; Denscombe

Penderfynwyd defnyddio holiadur er mwyn cael gorolwg o ganfyddiadau athrawon a staff ar ddefnyddio cwestiynu fel strategaeth AagD gyda dysgwyr CA2. Mae'n wybodus fod holiaduron yn ffordd boblogaidd o gasglu data gan ei bod yn addas ar gyfer amryw o sefyllfaoedd a phynciau, ac mae modd cynnal ar raddfa fach neu fawr (Munn a Drever, 1990). Un cryfder o ddefnyddio holiadur yw ei bod yn ddefnydd effeithlon o amser; cymerir munudau i gwblhau, dosbarthir yn gyflym, derbynnir ymatebion yn glori (Debois, 2019). Serch hyn, mae cyfyngiadau i holiaduron; gall pobl peidio cymryd o ddifrif neu rhuthro trwy'r holiadur, sydd felly'n darparu atebion anghywir (Cohen a Manion, 2007). Ymhellach, os nad yw cyfranogwr yn deall cwestiwn gall y cyfwelydd ei egluro, ond nad yw hynny'n bosibl wrth gwblhau holiadur sy'n gallu arwain at atebion camarweiniol (Debois 2019). Yn ogystal â hyn, nad yw'n bosib gwerthuso iaith corfforol neu deall teimladau trwy ddarllen holiadur yn cymharu â chynnal cyfweliad lle mae'r cyfranogwr o'ch flaen (Cohen a Manion,


Gwerthuso'n
feirniadol
cyfweiliad fel
offer ymchwil

Beth am
ystyried eich
profiadau chi
o ddefnyddio'r
offer
ymchwil?

Dull arall a ddefnyddiwyd i gasglu data oedd cyfweiliad. Un o gryfderau cynnal cyfweiliad yw bod modd casglu gwybodaeth fanwl trwy ofyn cwestiynau agored (Adams, 2015). Yn amlwg, mae'n ffordd bwerus i gael mewnwelediad i faterion addysgol wrth wrando ar brofiad yr unigolyn sy'n deall y mater sy'n cael ei drafod (Seidman, 2006). Mae cyfweld yn ddefnyddiol, oherwydd gall pobl defnyddio iaith i drafod ac ehangu ei atebion yn lle teipio neu ysgrifennu (Seidman, 2006). Ar y llaw arall, cymera cyfweiliadau llawer o amser ac weithiau'n mae'n gostus. Dywed Seidman (2006) bod llawer o waith paratoi o flaenllaw, megis; gysyniadau'r prosiect, cysylltu â chyfranogwyr, trawsgrifio'r data a rhannu'r canfyddiadau. Mae'n bwysig cofio bod angen meddwl am gwestiynau o safon a phernasedd hefyd (Adams, 2015). Anfantais cyfweiliad weithiau yw nad yw'n bosibl caniatáu anhysbysrwydd bob amser, yn enwedig os mai'r ymchwilydd sy'n cynnal y cyfweiliadau.

Trafodaeth
ar faterion
moesegol

[Cofiwch
wneud
cysylltiadau
yma gyda'ch
ffurflen
foeseg yn yr
Atodiad]*



Pwysleisia BERA (2024) dylai ymchwilwyr weithredu'n foesegol tuag at unrhyw un sy'n ymwneud a'r ymchwil, yn cynnwys y cyfranogwyr. Dylai unigolion gael eu trin yn deg, yn barchus, yn sensitif a rhyddid rhag rhagfarn (BERA, 2024). Ymhellach, noda bod cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yn ffactorau pwysig wrth gynnal ymchwil gyda'r disgwyl i'r data a'r drafodaeth fpd yn anhysbys ac nad oes hawl rhannu gwybodaeth bersonol sy'n gallu adnabod y cyfranogwyr (BERA, 2024). Gan bod y dysgwyr o dan 18 oed nid oeddent yn gallu rhoi caniatâd gwirfoddol gwybodus ar gyfer cymryd rhan yn yr ymchwil felly ar gyfer yr ymchwil, rhoddodd y Pennaeth y caniatâd ar eu rhan (Gweler llythyr gwybodaeth a'r ffurflen ganiatad yn Atodiad 2). Pwysleisia BERA (2024) y dylai ymchwilwyr sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall pam mae angen eu cyfranogiad, beth yw pwrpas yr ymchwil, beth y gofynnir iddynt ei wneud, beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a bod hawl ganddynt adael yr ymchwil heb roi rheswm. Cyn cynnal y cyfweiliadau grwp gyda'r dysgwyr gofynwyd am eu cydsyniad ar lafar wrth egluro beth oedd pwrpas y cyfweiliad ac am eu cydsyniad parhaus drwy ddefnyddio cardiau coch ac oren (gweler Atodiad 5).

Prosesau dadansoddi data

Yn ystod y diwrnod ymchwil, dosbarthwyd holiadur ar-lein i staff Ysgol A, a casglwyd data meintiol ac ansoddol. Yn ogystal casglwyd data ansoddol drwy gynnal cyfweiliad lled-strwythuredig gyda grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 5 a chyfweiliad unigol gyda'r mentor dosbarth. Cyflwynwyd data meintiol o adborth yr holiaduron ar ffurf siartiau a thablau (Gweler Atodiad 3). Ar ôl cynnal y cyfweiliadau, cyflwynwyd y data ar ffurf trawsgrifiadau (Gweler Atodiad 4). Er mwyn dadansoddi'r data, defnyddiwyd codio i adnabod patrymau a chynhyrchu themau. Mae codio yn didoli data crai yn segmentau y gellir eu rheoli, ac yn caniatáu i ymchwilwyr symud o ddata disgrifiadol i ddealltwriaeth ddyfnach, dadansoddol a chysyniadol, gan helpu i ddatgelu themâu (NFER, 2013). Gweler enghraifft o godio er mwyn adnabod themâu yn Atodiad 5.

Canlyniadau a Thrafodaeth

Cyflwyniad yn nodi trosolwg o'r cynnwys



Cynnwys dyfyniadau gan y cyfranogwyr wrth drafod y canlyniadau



Trafod y canlyniadau gan wneud cysylltiadau gyda'r Adolygiad Llenyddiaeth



Ar ôl dadansoddi'r data o drawsgrifiadau'r cyfweiliadau a data'r holiaduron, nodwyd pedwar thema allweddol o ganfyddiadau athrawon a dysgwyr Blwyddyn 3 o ddefnyddio 'Meddwl-Paru-Rhannu' fel offeryn Asesu ar gyfer Dysgu yn yr ystafell ddosbarth: (i) gwella lles emosiynol disgyblion; (ii) cynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth ddyfnach; (iii) hyrwyddo cynhwysiant; a (iv) hwyluso effeithiol.

1. Gwella lles emosiynol dysgwyr – y thema gyntaf a nodwyd oedd bod Meddwl-Paru-Rhannu wedi cyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo lles emosiynol disgyblion pan gaiff ei ddefnyddio yn ystod gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, yn ystod y cyfweiliadau grŵp, nododd Plentyn b, "Rwy'n hoffi trafod fy syniadau gyda ffrind gan fod hyn yn rhoi mwy o hyder i mi rannu fy ateb." Yn yr un modd, dywedodd Plentyn d, "Rwy'n fwy hyderus bod fy ateb yn iawn ar ôl ei drafod gyda fy ffrind ac yna gwrando ar atebion eraill yn y dosbarth." Mae hyn yn cefnogi damcaniaeth Vygotsky (1978) o'r Parth Datblygiad Proximal (ZPD), sy'n tynnu sylw at fanteision emosiynol a gwybyddol dysgu gyda chyfoedion cefnogol. Ar ben hynny, mae Gillies (2016) yn honni bod strwythurau dysgu cydweithredol yn helpu disgyblion i ddatblygu ymddiriedaeth a theimlad o ddiogelwch seicolegol, lle cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffordd y gwnaeth disgyblion yn yr astudiaeth hon ymlacio'n amlwg a chymryd rhan yn fwy parod yn ystod y cyfnod 'Pâr'. Atgyfnerthodd cyfweiliadau ag athrawon y canfyddiadau hyn. Esboniodd Athro 1 fod Meddwl-Pâr-Rhannu yn atal

Enghraifft o
drafod y data
gan ddefnyddio
thema



Enghraifft o
gyfeirio yn ôl at
y llenyddiaeth



Beth am gynnwys
dyfyniadau gan y
cyfranogwyr neu
data o'r
holiaduron i
gefnogi eich
sylwadau?


Thema 3: Heriau wrth ddefnyddio byrddau gwyn bach

Y trydydd thema a adnabuwyd o'r data oedd heriau wrth ddefnyddio byrddau bach gwyn. Un o'r heriau cafodd ei grybwyll gan yr athrawon yn yr holiaduron oedd bod plant yn copïo ei gilydd. Cafodd y broblem hon ei chodi gan un o'r plant cyn gofyn cwestiwn yn ymwneud â'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio byrddau gwyn bach felly gellir dadlau ei fod yn eithaf rhwystredig i'r dysgwr penodol hyn. Her arall a ddaeth i'r amlwg gan yr holl gyfranogwyr oedd pennau'n rhedeg allan. Wrth gyfeirio yn ôl at waith Sherrington a Stafford (2012), er mwyn bod y strategaeth yn effeithiol, mae'n rhaid i'r byrddau gwyn bach a'r offer sy'n gysylltiedig fod yn hygyrch. Yn yr un modd, roedd un o'r athrawon wedi nodi nad oes digon o fyrddau neu bennau ar gael i bob plentyn. Mae'n bosib bod cyfyngiadau fel hyn yn gallu cael eu hachosi gan ddiffyg cyllid neu resymau sydd allan o reolaeth yr athrawon felly mae'n bwysig i beidio bod yn feirniadol o'r athrawon na'r ysgol. Creda pob athro bod byrddau gwyn

Casgliad ac argymhellion

Llunio casgliadau drwy ystyried
prif ganfyddiadau'r adolygiad
llenyddiaeth a'r data gyda'i gilydd

Trafodaeth ar effaith cynnal yr
ymchwil ar eich dysgu proffesiynol –
Nodi argymhellion ar gyfer
trawsnewid eich ymarfer
proffesiynol



Bwriedir crynhoi'r canlyniadau a gafwyd o'r adolygiad llenyddiaeth a'r ymchwiliad gan lunio casgliadau. Nod yr ymchwil oedd canfod beth oedd barn athrawon am gwestiynu fel modd o AagD. Dangosir yr astudiaeth defnyddioldeb triongl data i gymharu â chysylltu llenyddiaeth a data'r ymchwiliad.

Nodwyd nifer o gryfderau i gwestiynu fel strategaeth AagD yn y cyfweiliad a holiadur megis; mae modd asesu dealltwriaeth yn syth, mae gwahanol fathau o gwestiynau (agored/caeedig) ac mae amrywiaeth o strategaethau (technoleg, ar lafar, gwaith grŵp). Er nodwyd yr athrawon nifer o gryfderau mae rhai heriau. Un o'r heriau mwyaf amlwg oedd pryder plant, mae rhai dysgwyr yn anhyderus sy'n arwain at straen wrth ateb cwestiynau (Llywodraeth Cymru, 2010). Wrth ymchwilio nodwyd bod angen i athrawon drin ymatebion anghywir yn sensitif fel eu bod yn codi lefel yr her yn hytrach na lefel y straen (Hall, 2016). Sylweddolir pwysigrwydd lleihau'r pwysau pryd atgyfnerthwy hanfodlonrwydd creu amgylchedd diogel gan yr athrawes yn ystod y cyfweiliad. Ymhellach, un o'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r astudiaeth hon yw'r ffaith bod angen sicrhau gofyr cwestiynau safonol, wrth ymchwilio daeth yn amlwg er bod athrawon yn cwestiynu'n gyson gofynnwyd cwestiynau lefel is sydd ddim yn ddigon heriol i blant gyflawni ei botensial llawn (Hall, 2016). Ond, nodwyd yn y cyfweiliad hanfodlonrwydd cynllunio cwestiynau o flaenllaw gan ystyried gallu unigolion a defnyddio strategaethau megis trafod i alluogi'r plant i gael digon o amser meddwl. Er arddangoswyd heriau i gwestiynu darparwyd datrysiadau i'r sialensiau yma, awgryma'r canfyddiadau hyn, mai barn gyffredinol athrawon am gwestiynu fel strategaeth AagD yn gadarnhaol. Defnyddir yr astudiaeth yma i drawsnewid fy arfer proffesiynol yn y dosbarth. Deallir pwysigrwydd AagD i ddatblygiad plant, megis mae'n galluogi'r athrawes i baratoi ar gyfer gwersi'r dyfodol a chadw cofnod o gynnydd y disgyblion. Hefyd deallir bod asesu parhaus yn elfen graidd o addysgu

Crynhai prif
negeseuon y
canfyddiadau



Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n dangos y gellir defnyddio Meddwl-Paru-Rhannu nid yn unig fel offeryn Asesu ar gyfer Dysgu effeithiol i gefnogi dealltwriaeth athrawon o gynnydd disgyblion mewn dysgu a nodi'r camau nesaf yn eu dysgu, ond hefyd i gefnogi a hyrwyddo hyder, ymgysylltiad a chynhwysiant disgyblion. Fodd bynnag, mae ystyriaeth ofalus i drefnu a chynllunio, gan gynnwys sgaffaldio awgrymiadau a chwestiynau, yn allweddol i hyn fod yn llwyddiannus.

Trafodaeth ar
ddilysrwydd,
dibynadwyedd a
chyffredinoli
data



Cryfhawyd dilysrwydd trwy ddulliau ymchwil a dadansoddi priodol (Leung, 2015) a chefnogodd samplu pwrpasol ar draws grwpiau blwyddyn perthnasol ddilysrwydd cyd-destunol (Thomas, 2017). Gwellawyd dibynadwyedd trwy gasglu data cyson ar draws cyfweiliadau a holiaduron, gan gefnogi dibynadwyedd (Denscombe, 2014). Er bod cyffredinoli yn gyfyngedig i gyd-destun penodol yr ysgol, gellir trosglwyddo canfyddiadau i leoliadau tebyg (Thomas, 2017).

Trafodaeth ar sut
mae'r ymchwil
wedi gwella arfer
proffesiynol a'r
camau nesaf

Drwy gynnal yr ymholiad ymchwil hwn, rwyf wedi deall sut y gellir defnyddio Meddwl-Paru-Rhannu fel offeryn Asesu ar gyfer Dysgu i gefnogi hyder ac ymgysylltiad dysgwyr mewn dysgu. Dangosodd y canfyddiadau fod yr offeryn Asesu ar gyfer Dysgu yn gyson yn creu amgylchedd diogel i ddisgyblion fynegi syniadau gyda'u cyfoedion cyn rhannu gyda grwpiau mwy neu'r dosbarth cyfan. Gall yr elfen o sgwrs strwythuredig o fewn Meddwl-Pâr-Rhannu hyrwyddo lles dysgwyr, gan adleisio dadl Gillies (2016) bod dysgu cydweithredol yn meithrin ymddiriedaeth, cysur a chynhwysiant. Rwyf hefyd wedi sylweddoli y gall y cyfnod 'Rhannu' fod yn llawer mwy heriol i ddisgyblion nag a ragwelais. Mae'r fewnwelediad hwn wedi dylanwadu ar fy meddwl addysgeg: Rwyf bellach yn cydnabod pwysigrwydd sgaffaldio cam olaf Meddwl-Pâr-Rhannu trwy ddechrau brawddegau, modelu athrawon, neu grwpiau llai yn rhannu cyfleoedd cyn trosglwyddo i ddeialog dosbarth cyfan. Rwy'n bwriadu ymgorffori'r rhain yn fy nghynllunio ac addysgu yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol terfynol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r llenyddiaeth allweddol ar rôl yr athrawon wrth greu amodau cefnogol ar gyfer sgwrs ystyrlon (Black a Wiliam, 1998). Mae'r ymchwil hwn hefyd wedi cryfhau fy ymrwymiad moesegol i ymarfer cynhwysol, dan arweiniad myfyrwyr, sy'n cyd-fynd â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017), yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag addysgeg effeithiol a phroffesiynoldeb myfyriol.